CYMRAEG

# La CAZOTTE
## SAINT-AFFRIQUE



# CROESO


***EPLEFPA La Cazotte***
Route de Bournac
12400 SAINT-AFFRIQUE
FFRAINC

+33 5 65 98 10 20 lpa.st-affrique@educagri.fr www.la-cazotte.educagri.fr

***PENNAETH CYDWEITHREDU RHYNGWLADOL:*** *Olivier ROCHER* olivier.rocher@educagri.fr

***Mae "La Cazotte" yn sefydliad hyfforddi amaethyddol cyhoeddus, a agorodd ym 1970 o dan awdurdod adran Amaethyddiaeth Ffrainc. Mae hon wedi'i lleoli yn Saint-Affrique (8000 o drigolion), yn rhanbarth Ocsitania, yn ne adran Aveyron, ardal sy'n enwog am ei chaws Roquefort, traphont Millau, aneddiadau Marchogion y Deml UNESCO ar y Larzac a'i barc naturiol rhanbarthol.***

Mae ein hysgol wedi'i rhannu'n 5 uned:

## *Yr ysgol uwchradd ffermio*

LYCÉE AGRICOLE

- tua 400 o fyfyrwyr 13 i 20 oed
- 37 o athrawon
- 5 arbenigedd (bridio defaid / bridio ceffylau / marchogaeth / technolegau agronomeg / cynhyrchiad anifeiliaid)
- ysgol breswyl 390 gwely (un o'r mwyaf yn Ne Ffrainc)

## *Y ganolfan hyfforddi oedolion*

CFPPA

- 110 o oedolion dan hyfforddiant
- 17 hyfforddwr
- 6 arbenigedd (bridio defaid / bridio ceffylau / marchogaeth / ffermio organig / garddio i'r farchnad / paramaethu)

## *Y ganolfan brentisiaethau*

CFA

- 200 o brentisiaid rhwng 15 a 29 oed
- 11 hyfforddwr
- 6 arbenigedd (ffermio cyffredinol / gofal ceffylau / tirlunio / masnach / trafnidiaeth ffyrdd / trydan)

## *"Pastoralia"*

C3R PASTORALIA

- canolfan ddarganfod ryngweithiol ar ffermio defaid a'r sector Roquefort

## *Y fferm*

EXPLOITATION

- fferm addysgol ac arbrofol
- 4,5 gweithiwr
- 140 ha (346 erw) + 100 ha (247 erw) ar gyfer cnydau organig
- 600 o famogiaid llaeth Lacaune (PDO Roquefort)
- 2 ddiadell organig (80 o ddefaid Lacaune ar gyfer cig + 20 o heffrod Aubrac)
- 3 caseg fagu y Fforest Newydd (tua 20 o geffylau wrthi'n cael eu datblygu)
- gweithdy dressage (30 o geffylau ifanc y flwyddyn)

***Mae ein hysgol yn agored i'r byd a threfnir nifer o deithiau ysgol yn Ffrainc a thramor bob blwyddyn. Felly, mae croeso i chi gysylltu â ni os hoffech ymweld neu os oes gennych ddiddordeb mewn cydweithio yn y dyfodol.***

# Gwelwn chi cyn hir !

**CYFIEITHU**
Helo Blod (Llywodraeth Cymru)